Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 20 Gorffennaf 2016
Siambr y Cyngor, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Mererid Hopwood, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Gwawr Jones, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams, Sara Whittam

Aelodau (Myfyrwyr): Neb yn bresennol

Aelodau (Colegau Cymru): Carys Swain

Grŵp Ymgynghorol: David Lloyd

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Siwan Davies, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Dr Llion Jones, Mari Elin Jones, Dr Lisa Lewis, Andrew Parry, Gwerfyl Roberts, Llinos Roberts, Llŷr Roberts, Yr Athro Deri Tomos, Yr Athro Enlli Thomas, Gaynor Williams, Linda Wyn

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod ychwanegol gan y Deon gan gynnwys Sara Whittam ar ran Gaynor Williams. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Caerdydd am y croeso ac am letya'r cyfarfod. 1.3. Estynnwyd croeso i aelodau Grŵp Ymgynghorol y Coleg er mwyn iddynt gyfrannu at y drafodaeth ar y cynllun academaidd newydd. 1.4. Dymunwyd yn dda i'r Athro Deri Tomos ar ei ymddeoliad		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	a diolchwyd iddo am ei gyfraniad ar y Bwrdd Academaidd. 1.5. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Siwan Davies ar ei rhaglen deledu *Her yr Hinsawdd* a ddarlledir ar S4C ar hyn o bryd.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi:		
3. Cyflwyniad gan Brifysgol Caerdydd	3.1. Cafwyd cyflwyniadau gan Elliw Iwan, Swyddog Cangen, ar ddarpariaeth y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, a gan Sara Whittam, Is-Gadeirydd Cangen Caerdydd, ar addysgu cyrsiau iechyd a meddygaeth yn ddwyieithog. 3.2. Adroddwyd y bydd rhaglen deledu yn dilyn yr hyfforddeion iechyd yn cael ei ddarlledu ar S4C, maes o law. 3.3. Diolchwyd iddynt am eu cyflwyniadau sy'n arddangos y datblygiadau a'r gwaith a gyflawnwyd.		
4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	4.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar sefyllfa gyfredol y Coleg. Disgwylir cyhoeddi argymhellion Adolygiad Diamond yn yr hydref. 4.2. Adroddwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi trafod cynllunio academaidd ac wedi gwneud nifer o benderfyniadau mewn perthynas â phrosesu cyllido a blaenoriaethu meysydd academaidd ar gyfer cyllido yn y dyfodol. 4.3. Adroddwyd bod cytundeb rhwng y Coleg a CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru) wedi ei gadarnhau ar gyfer achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith o 2016/17 ymlaen.		
5. Cynllun Academaidd newydd **(Eitem 3)**	5.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar y cynllun academaidd newydd gan y Cofrestrydd. Diolchwyd aelodau'r Bwrdd Academaidd am eu cyfraniadau i'r cynllun. 5.2. Yn dilyn y cyflwyniad trafodwyd nifer o'r themâu yn fanwl		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	a nodwyd awgrymiadau i'w hystyried wrth ychwanegu at gynnwys y cynllun newydd. 5.3. Cytunwyd y gallai'r aelodau gynnig sylwadau pellach ar y cynllun newydd tan ddiwedd y mis. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Grŵp Ymgynghorol yn trafod y cynllun fis Medi cyn i'r Bwrdd Academaidd dderbyn dogfen derfynol ar 13 Hydref 2016. 5.4. Diolchwyd i'r Cofrestrydd am ei arweiniad wrth baratoi'r cynllun.	Sylwadau pellach erbyn diwedd y mis	29 Gorffennaf 2016
6. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016	6.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
7. Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi **(Eitem 5)**	7.1 Derbyniwyd Cynllun Gweithredu Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi drafft, er gwybodaeth. 7.2 Trafodwyd agweddau o'r cynllun a nodwyd rhai argymhellion a diwygiadau i'w trosglwyddo i'r Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi nesaf.	DP i'w cynnig i'r Grŵp nesaf	Tymor yr Hydref 2016
8. Myfyrwyr 2016/17	8.1. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17. Nodwyd y penodwyd y canlynol: **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Ddwyrain** – Aimee Keen, Prifysgol De Cymru ac Osian Wyn Morgan, Prifysgol Caerdydd **Cynrychiolwyr Prifysgolion y De Orllewin** – Alun Bryn Rennolf, Prifysgol Abertawe a Lois Pennant Jones, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant **Cynrychiolwyr Prifysgolion y Gogledd Orllewin** – Gethin Morgan ac Osian Wyn Owen, Prifysgol Bangor **Cynrychiolydd Ôl-raddedig** – Laura Beth Davies, Prifysgol Caerdydd **Swyddog UCMC** – Ifan James		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	8.2. Adroddwyd bod Fflur Elin, Llywydd newydd NUS Cymru a Chyfarwyddwr newydd y Coleg yn cynrychioli myfyrwyr, yn awyddus i fireinio cynrychiolaeth myfyrwyr. 8.3. Bydd myfyrwyr 2016/17 yn dilyn yr un drefn ag eleni wrth gael cyfarfod anffurfiol dros ginio gyda'r Deon ac yn cael cyfle i gyfrannu at eitem agenda benodol. 8.4. Diolchwyd i fyfyrwyr 2015/16 am eu cyfraniad buddiol.		
9. Materion yn codi	9.1 <u>Eitem 4.3: Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth</u> Nodwyd bod Owain Huw, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi gadael y Coleg a bod Rhys Williams wedi dechrau yn y swydd fel Rheolwr Systemau ar 11 Gorffennaf 2016. 9.2 <u>Eitem 12.2: Ehangu mynediad a chyfranogiad</u> Adroddwyd bod Delyth Murphy yn gwneud gwaith pwysig yn y maes ac mai'r bwriad nawr oedd sefydlu Gweithgor bychan i fynd i'r afael â chydweithio cyn ail-gynnull y Pwyllgor. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr yn y cyd-destun hwn ar gytundeb cydweithio newydd a gyhoeddir yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng y Coleg a'r Brifysgol Agored sy'n ymateb i agweddau o'r ddarpariaeth ehangu mynediad a rhan-amser. 9.3 <u>Eitem 13.2: Prifysgol Glyndŵr</u> Nodwyd bod Swyddog Cangen wedi ei phenodi ym Mhrifysgol Glyndŵr gyda pherthynas ffurfiol â Choleg Cambria. 9.4 <u>Eitem 14.1: Gwobrau coffa</u> Nodwyd y dyfernir Gwobr Merêd a Gwobr Goffa Dr John Davies yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni fis Awst.		
10. UFA	10.1. Adroddwyd y byddai ymweliadau'r Deon â'r canghennau'n parhau yn 2016/17.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	10.2. Yn deillio fel mater a godwyd yn ystod ei ymweliadau nododd y Deon y byddai'n cysylltu'n anffurfiol â'r sefydliadau maes o law i holi sut yr ymdrinnir ag asesu gwaith a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu gweinyddu. 10.3. Diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniad a'u teyrngarwch ar ddiwedd flwyddyn academaidd arall.		
11. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	11.1. Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17: • 13 Hydref 2016, Prifysgol De Cymru • 8 Chwefror 2017, Caerfyrddin • 10 Mai 2017, Prifysgol Aberystwyth		